# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Ystafell Gynhadledd 4B - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 18 Tachwedd 2025

Amser: 08.57 - 09.02

# Preifat, Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Paul Davies AS<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Steffan Lewis (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Julian Luke, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Marc Wyn Jones, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Ni chafwyd dim ymddiheuriadau.

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

# 3 Trefn Busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

Dydd Mawrth

Nododd y Pwyllgor Busnes y newid a ganlyn:

- Datganiad gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Storm Claudia (45 munud)
- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 8.00pm.

Dydd Mercher

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.20pm.

## 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 2 Rhagfyr 2025**

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar yr eitemau canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (30 munud)
    - Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cyllidebau Carbon) (Cymru) 2025;
    - Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Terfyn Credyd Cyfrif Allyriadau Net Cymru) (Cymru) 2025
    - Rheoliadau Cyfrifyddu Carbon (Cymru) (Diwygio) 2025

Gofynnodd Heledd Fychan am gadarnhad y byddai'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch yn gwneud datganiad yn y Senedd ar ddyfodol y sector addysg drydyddol, fel y nodwyd gan y Trefnydd yn ystod Datganiad a Chyhoeddiad Busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos diwethaf.

Cadarnhaodd y Trefnydd ei bod yn bwriadu ychwanegu'r datganiad at yr agenda ar gyfer Cyfarfod Llawn 25 Tachwedd, yn amodol ar gytundeb y Cabinet.

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gynnwys y busnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 10 Rhagfyr 2025**

- Dadl Aelod o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Adam Price (60 munud)
- Dadl ar y ddeiseb P-06-1534 Rhoi diwedd ar ofal mewn coridorau yng Nghymru (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer: Carolyn Thomas AS (Gogledd Cymru) (30 munud)

# 4 Pwyllgorau

## 4.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau yn gwneud cais am ddadl

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes y cais a chytunodd i drefnu dadl ar ddeiseb *P-06-1534 Rhoi diwedd ar ofal mewn coridorau yng Nghymru* yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Rhagfyr.

## 4.2 Llythyr gan y Prif Weinidog at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ynglŷn â chraffu ar fylchau a nodwyd gan Bwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru a Modiwl 2 Ymchwiliad Covid-19 y DU

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr, a chadarnhad y Prif Weinidog y bydd yn bresennol mewn sesiwn dystiolaeth ffurfiol gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ym mis Ionawr 2026.

# 5 Trefniadau Cyflwyno

## 5.1 Trefniadau Cyflwyno yn ystod Toriad y Nadolig

Cadarnhaodd y Pwyllgor Busnes y trefniadau arfaethedig ar gyfer:

- gosod dogfennau yn ystod cyfnod y Nadolig;
- cyflwyno busnes y Cyfarfod Llawn yn ystod wythnos gyntaf y tymor a gwelliannau i Filiau; a
- cyflwyno Cwestiynau Ysgrifenedig yn ystod toriad y Nadolig.